

30 Hydref 2015

Cysylltiadau:

Y DU: Lowri Joyce
+44 0 7464 5 980 601
Lowri.joyce@hitachi-eu.com

Tristram Denton
+44 0 7824 5 408 059
Tristram.denton@hitachi-eu.com

Adweithydd Dŵr Berw Uwch Hitachi-GE ar gyfer y DU yn cymryd cam pwysig ymlaen yn y broses o Asesu'r

Dyluniad Generig (GDA)

30 Hydref, 2015 - Mae Hitachi-GE, darparwr yr adeithwydd ar gyfer Wylfa Newydd, wedi symud ymlaen heddiw tuag at leoli'r Adweithydd Dŵr Berw Uwch ym Mhrydain (UK ABWR), yn dilyn cadarnhad y bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn symud tuag at Gam olaf y broses o Asesu'r Dyluniad Generig (GDA), ac mae'r broses ar y trywydd i'w chwblhau erbyn diwedd 2017.

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn bwriadu datblygu ABWR y DU ar ddau safle: Wylfa Newydd ar Ynys Môn ac Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi symud i Gam 4 y GDA.

Dyweddodd Mr Ken Sato, Rheolwr Cyffredinol, Trwyddedu, Hitachi Europe Ltd. ar ran Hitachi-GE Nuclear Energy: "Mae symud ymlaen i Gam 4 o fewn dwy flynedd a hanner yn arwydd o'r cynnydd cryf rydym wedi'i wneud. Rydym yn hynod falch fod y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi symud i'w cam olaf, ac rydym ar y trywydd i gwblhau'r GDA erbyn diwedd 2017.

"Mae'r GDA yn asesiad trylwyr a manwl, a phwysig yw hynny - mae craffu heriol gan y rheoleiddwyr yn rhywbeth i'w ddisgwyl a'i groesawu. Bydd hyn yn parhau drwy Gam 4, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cyflwyniadau manwl ac ymdrin â chwestiynau'r rheoleiddwyr.

“Erbyn hyn, mae gan Hitachi-GE dîm o fwy na 300 o arbenigwyr yn gweithio ar y GDA. Rydym yn manteisio ar brofiad o safon fyd-eang o fewn ein tîm ac ymysg ein contractwyr. Drwy barhau i ganolbwyntio, rydym yn optimistig y gallwn gynnal y cynnydd rhagorol a gafwyd hyd yn hyn.

Aeth yn ei flaen: “Yr Adweithydd Dŵr Berw Uwch yw'r unig adweithydd y genhedlaeth III+ sydd wedi dechrau gweithredu yn unrhyw le yn y byd, ac mae wedi cael ei gyflenwi ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae'r Adweithydd Dŵr Berw Uwch yn enghraifft berffaith o gyflenwi dibynadwy yn y sector niwclear.”

Dywedodd Mark Lunn, Cyfarwyddwr Peirianeg yn Pŵer Niwclear Horizon: "Mae'n tystio i waith caled y tîm a chadernid technoleg yr Adweithydd ei fod wedi symud ymlaen i gam olaf y GDA.

"Dyma gam pwysig ymlaen i Brosiect Wylfa Newydd, ac mae'n ein cadw'n gadarn ar y trywydd i ddechrau cynhyrchu yn hanner cyntaf y 2020au. Bydd y gwaith caled yn parhau, ond rydym wedi gwneud cynnydd cryf tuag at gyflenwi pŵer diogel, cynaliadwy a fforddiadwy a fydd yn deillio o'n datblygiad."

Diwedd

Cyswllt:

Tris Denton, Hitachi Europe - Tristram.denton@hitachi-eu.com +44 (0) 7824 408 059

Lowri Joyce, Hitachi Europe – Lowri.joyce@hitachi-eu.com +44 (0) 7464 980 601

Nodiadau i olygyddion:

- Yn unol ag amserlen y GDA, mae Hitachi-GE wedi cyhoeddi heddiw adolygiad B eu Hadroddiad Diogelwch cyn Adeiladu (PCSR) ar wefan y GDA ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU. <http://www.hitachi-hgne-uk-abwr.com/>.
- Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi cyhoeddi eu hadroddiad cryno o gam 3 o'r GDA. Mae'r rhain ar gael drwy wefan y cyd-reoleiddwyr: <http://www.onr.org.uk/new-reactors/index.htm>

- Yn y cam hwn, mae amserlen y GDA yn cael ei rhannu rhwng cwmipas diogelwch niwclear y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, a chwmpas Asiantaeth yr Amgylchedd. Tra bo'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi symud i Gam 4, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau ar raglen wahanol, tuag at ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr hydref yn 2016.
- Hitachi-GE yw darparwr yr adweithydd i Pŵer Niwclear Horizon. Mae Adweithydd Dŵr Berw Uwch (ABWR) Hitachi-GE eisoes wedi ei adeiladu ar dri safle (pedair uned), ac mae wedi cael cymeradwyaeth reoleiddio mewn tair gwlad o gwmpas y byd.
- Yr Asesiad Dyluniad Generig (GDA) yw'r broses a ddefnyddir gan reoleiddwyr niwclear y DU i asesu addasrwydd posibl dyluniad adweithydd niwclear i'w ddatblygu mewn lleoliad amhenodol yn y DU, gan ystyried diogelwch ac effeithiau amgylcheddol.
<http://www.hitachi-hgne-uk-abwr.com/gda.html>
- Yng ngwanwyn 2013, llofnododd Hitachi-GE gytundebau asesu gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan ddechrau'r broses 'Asesu'r Dyluniad Generig'. Ym mis Ionawr 2014, dechreuodd y cwmni gyfnod sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, gan lansio gwefan newydd yn y DU yn benodol ar gyfer egluro technoleg yr adweithydd a gwahodd sylwadau ar y dyluniad.
<http://www.hitachi-hgne-uk-abwr.com/>. Yna, aeth yr asesiad ymlaen i Gam 3 yn Awst 2014.
- Mae'r wefan yn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau neu gwestiynau am ddyluniad yr adweithydd, neu ar y cyflwyniadau y mae Hitachi-GE wedi eu gwneud i'r rheoleiddwyr. Ni luniwyd y broses ar gyfer trafod polisi'r Llywodraeth ynghylch ynni niwclear ac nid yw'n gorgyffwrdd â'r caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau arfaethedig Horizon.
- Mae'r tîm o Hitachi-GE sy'n arwain y GDA yn cael ei gefnogi gan fwy nag ugain o weithwyr ar secondiad o Pŵer Niwclear Horizon. Mae'r arbenigedd hwn yn y DU wedi cefnogi cynnydd a hefyd wedi caniatáu i drosglwyddo mwy o wybodaeth am Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU.

Ynglŷn â Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd.

Sefydlwyd Hitachi-GE ym mis Gorffennaf 2007 fel menter ar y cyd rhwng Hitachi, Ltd. a'r General Electric Company. Mae'n un o wneuthurwyr gorsafoedd cynhwysfawr a blaengar y byd ac mae'n ymwneud â datblygu, cynllunio, dylunio, cynhyrchu, archwilio, gosod, gwneud gwaith cynweithredol, a chynnal a chadw offer perthnasol i adweithyddion niwclear, a gall reoli prosiectau integredig. Mae Hitachi-GE wedi bod ynghlwm wrth 23 adweithydd yn Japan hyd yma, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Yn eu mysg, mae wedi cymryd rhan yn holl brosiectau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch (ABWR) Japan – mae pedwar ABWR eisoes ar waith ac mae tri arall wrthi'n cael eu hadeiladu. Dramor, mae wedi cyflenwi offer adweithydd niwclear mawr ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Lungmen yn Taiwan.

Ynglŷn â Pŵer Niwclear Horizon

Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y Deyrnas Unedig. Prynwyd y cwmni gan Hitachi Ltd o Japan ym mis Tachwedd 2012. Mae'r cwmni'n datblygu cynlluniau o adeiladu o leiaf 5,400MW o bŵer niwclear yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Pan fydd y gorsafoedd pŵer yn weithredol, byddant yn cyflogi hyd at 1000 o bobl yr un, a phan fydd y gwaith adeiladu ar ei anterth, disgwylir gweithlu o ryw 8,500. I gael rhagor o wybodaeth am Horizon, ewch i www.horizonnuclearpower.com/hafan.